

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd**
**European Structural and Investment Funds**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru 2000-2023 – Sgiliau

# Cyflwyniad

Mae prosiectau a ariennir gan yr UE wedi darparu hyfforddiant, cymorth cyflogaeth ac wedi buddsoddi mewn gwella sgiliau'r gweithlu yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae llawer o resymau pam y gallai unigolyn wynebu rhwystrau o ran cwblhau addysg a/neu sicrhau cyflogaeth. Gall ymyriadau wedi'u cynllunio'n benodol, wedi'u teilwra i angen, fod yn allweddol i oresgyn y rhwystrau hynny. Gall prosiectau a ariennir gan yr UE ddarparu'r lefel o gefnogaeth sydd ei hangen i alluogi unigolyn i ddod o hyd i lwybr llwyddiannus tuag at gyflawni ei nodau.

Mae cronfeydd yr UE wedi helpu i gynyddu sgiliau galwedigaethol a sgiliau lefel uwch, lleihau anghydraddoldebau rhwng dynion a merched, cynyddu amrywiaeth y gweithlu, a chefnogi cynnydd merched yn y gweithlu. Mae helpu pobl i gael gwaith cynaliadwy yn allweddol i leihau lefelau tlodi a chynyddu cynhwysiant cymdeithasol. Mae cronfeydd yr UE wedi helpu i chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag dod o hyd i waith, gan ganolbwyntio ar gynyddu cyflogaeth a gweithgarwch economaidd ledled Cymru.

Clawr: Graddedigion Gwasanaethau Ariannol Cymru – Lansio Gwyddor Data 11

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48958, ISBN digidol 978-1-83577-346-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

**Cefnogodd Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Ariannol Cymru (WFSBP)** y gwaith o ddatblygu cronfa dalent o weithwyr proffesiynol y dyfodol ar gyfer sector gwasanaethau ariannol Cymru. Dan arweiniad Fforwm Canolfannau Cyswllt Cymru, ac mewn partneriaeth â chwmnïau gwasanaethau ariannol, roedd y prosiect yn darparu dilyniant gyrfa i raddedigion o rolau lefel mynediad, i rolau proffesiynol uwch yn y diwydiant, drwy raglenni hyfforddi a datblygu strwythuredig, gan ymddwyn fel cymhelliant i gadw talent broffesiynol yn gweithio yng Nghymru.



*Graddedigion Gwasanaethau Ariannol Cymru*

Darparodd rhaglen **Cymunedau am Waith** Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth dros £44m o gyllid yr UE, gyngor un-i-un gan fentoriaid arbenigol i gynyddu cyflogadwyedd pobl economaidd anweithgar a di-waith hirdymor sydd dros 25 oed ledled Cymru, gan helpu pobl sy'n bryderus ynglŷn ag ymuno â'r farchnad lafur neu sy'n ei chael hi'n anodd cael swydd oherwydd diffyg cymwysterau, cyfrifoldebau gofal plant neu broblemau iechyd.

Roedd **PaCE (Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth)**, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, yn cefnogi pobl na fyddent yn draddodiadol yn ymgysylltu â gwasanaethau prif ffrwd, y mae gofal plant yn brif rwystr i waith iddynt. Cefnogodd PaCE rieni i baratoi ar gyfer cyflogaeth a symud ymlaen iddi drwy gael gwared ar eu rhwystrau gofal plant a darparu arweiniad dwys i chwilio am waith a chaffael yr hyfforddiant priodol yn seiliedig ar wybodaeth am y farchnad lafur leol a gallu'r cyfranogwr i fynd i gyflogaeth.

Yn ogystal â rhaglenni hyfforddiant sgiliau cenedlaethol fel Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau, mae ardaloedd eraill o Gymru wedi elwa ar nifer o fentrau rhanbarthol sy'n targedu amrywiaeth o anghenion. Roedd **OPUS**, dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn canolbwyntio ar y bobl dros 25 oed sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur, er mwyn gwella eu cyflogadwyedd a mynd i'r afael â'u rhwystrau at waith. Roedd y cynllun yn darparu cefnogaeth i gyfranogwyr economaidd anweithgar a di-waith hirdymor a oedd yn wynebu nifer o rwystrau cymhleth at waith.

Gyda chefnogaeth £19.7m o gyllid yr UE, darparodd **Sgiliau ar gyfer Diwydiant II**, dan arweiniad Coleg Gŵyr, fynediad cyfartal at ddysgu gydol oes i bob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol, i godi lefelau sgiliau a mynd i'r afael â phrinder sgiliau drwy ddarparu cymwysterau sgiliau galwedigaethol a hanfodol i weithwyr â llai o sgiliau. Mae'r prosiect yn ymgysylltu â sectorau fel ynni, adeiladu, diwydiannau creadigol, gwyddoniaeth, gweithgynhyrchu uwch, TGCh, gwasnaethau modurol, peirianneg, gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, bwyd, gofal a thwristiaeth.

## 3 Sgiliau

Dan arweiniad Coleg Gŵyr a chyda chefnogaeth £7m o gyllid yr UE, roedd y rhaglen **Swyddi Gwell, Dyfodol Gwell** yn cynnwys 5 prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop unigol gyda gweithgareddau a gyfrannodd at gymorth cyflogadwyedd ledled Abertawe a'r cyffiniau, i helpu dros 3,000 o gyfranogwyr di-waith neu dangyflogedig ledled Abertawe a'r cyffiniau.

Er mwyn helpu gweithgynhyrchwyr yng Nghymru i addasu i dechnolegau newydd i wella prosesau, a chynyddu capasiti, mae **MADE Cymru**, a ddarperir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, yn cynnig cyfres o gyrsiau ar-lein a hyblyg, gan gynnwys y prosiectau **Peirianneg Dylunio Uwch** ac **Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant Dros Gymru (i4Wales)**. Drwy alluogi cyfleoedd ymchwil a datblygu cydweithredol i gefnogi gweithgynhyrchwyr yng Nghymru, ffurfiodd y prosiect bartneriaeth â dros 140 o fusnesau gan gofrestru dros 400 o fyfyrwyr ar gyrsiau Rheoli Arloesedd ac Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant 4.0, gan greu rhwydwaith cymorth cydweithredol ledled Cymru.

Gyda chefnogaeth £14.1m o gyllid yr UE, fe wnaeth y prosiect **Bridges2Work**, dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin (Blaenau Gwent) ymgysylltu, cefnogi a pharatoi pobl economaidd anweithgar, gan gynnwys y rheini sy'n ddi-waith yn y tymor hir ar draws y pum Awdurdod Lleol. Roedd yn cefnogi'r gwaith o leihau tlodi drwy gynyddu lefelau cyflogaeth, yn enwedig ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a'r rheini sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur.

Drwy gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth (NEET) byddwn yn helpu i leihau diweithdra ymysg pobl ifanc a gwella eu rhagolygon o ran gyrfa a bywyd. Mae cronfeydd yr UE yn canolbwyntio ar godi lefelau cyflawniad, lleihau'r nifer sy'n gadael yr ysgol yn gynnar a chefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddod yn NEET.



*Bridges2Work*

Gyda chymorth £15m o gyllid yr UE, roedd prosiect **Inspire2Work** dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a Chyngor Dinas Casnewydd yn Nwyrain Cymru mewn partneriaeth â chyfanswm o wyth awdurdod lleol arall, yn darparu cymorth wedi'i deilwra i bobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET i chwalu rhwystrau, cynyddu eu hunan-barch, datblygu eu sgiliau cyflogadwyedd a symud yn nes at y farchnad lafur, gan helpu i leihau diweithdra ymysg pobl ifanc.




*Cyfranogwyr cwrs Inspire2Work 2020*

Dan arweiniad Cyngor Sir Penfro, roedd **Cam Nesa** yn gweithredu ar draws Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, gan weithio'n agos gyda cholegau addysg bellach. Roedd y rhaglen o gefnogaeth, cyngor a hyfforddiant dan arweiniad cyfranogwyr ar gyfer pobl ifanc (16-24 oed), a nodwyd nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), yn darparu mynediad at ystod eang o gyfleoedd gan gynnwys mentora, hyfforddi, profiad gwaith, cwnsela ac eiriolaeth lle'r oedd cyfranogwyr yn cael eu hannog i ail-ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a/neu gyflogaeth.

Nod **Nuture Equip Thrive**, dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, mewn cydweithrediad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, oedd lleddfu rhai o achosion tlodi drwy leihau tangyflogaeth ymhlith unigolion cyflogedig mewn swyddi rhan-amser a swyddi nad ydynt yn barhaol. Roedd y prosiect hefyd yn gweithio gyda chyfranogwyr anabl neu'r rheini sydd â chyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio (WLHC) ac sydd naill ai'n dymuno dychwelyd i weithio ar ôl cyfnod o absenoldeb neu'n dymuno gwella eu sefyllfa yn y farchnad lafur. Roedd ymgysylltu â chyflogwyr hefyd yn agwedd allweddol ar y prosiect, gan eu helpu i weithredu a gwella cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle, cefnogi trefniadau gweithio hyblyg, a gwneud newidiadau cynaliadwy i iechyd a lles staff drwy ddatblygu rhaglenni iechyd yn y gweithle.

Roedd prosiect **Sgiliau Gwaith i Oedolion II** Cyngor Torfaen, a gefnogwyd gan £7m o gyllid yr UE, yn cefnogi pobl â diffyg sgiliau ledled Torfaen, Blaenau Gwent, Caerffili a Merthyr Tudful i ennill sgiliau newydd a fyddai'n arwain at well sicrwydd swyddi a rhagolygon gyrfa. Mae'r prosiect yn darparu hyfforddiant penodol i swyddi mewn meysydd gan gynnwys adeiladu, cyfrifyddu a TG, yn ogystal â chyfleoedd i ddatblygu sgiliau allweddol fel llythrennedd digidol.

Roedd **Cynnydd**, dan arweiniad Cyngor Powys yn Nwyrain Cymru a Chyngor Sir Penfro yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, wedi'i dargedu at y bobl ifanc hynny rhwng 11 a 19 oed y nodwyd eu bod yn wynebu'r risg fwyaf o ddod yn NEET. Roedd y prosiect yn nodi ac yn olrhain y bobl ifanc hyn, gan ystyried ffactorau a allai gynyddu'r risg y byddent yn dod yn NEET, fel sgiliau iaith gwael a gofynion dysgu penodol a/neu broblemau iechyd meddwl. Roedd ymyriadau wedi'u cynllunio'n unigol, a oedd wedi'u teilwra'n benodol i bob cyfranogwr, yn cefnogi pobl ifanc i aros mewn addysg a llwyddo ynddi. Arweiniodd y prosiect at ostyngiad o 50% yn y rhai y nodwyd eu bod yn wynebu'r risg fwyaf o ddod yn NEET.




*Cynnydd*

Roedd rhaglen **Uwchsgilio@Waith** Coleg Gwent (a gefnogwyd gan £10.8m o gyllid yr UE) yn cynnig dros 70 o Gyrsiau ar draws chwe Choleg ac yn cefnogi dros 3,500 o weithwyr o dros 800 o gwmnïau gyda hyfforddiant, arweiniad ynghylch gyrfaoedd a datblygu eu sgiliau, gan ddarparu mynediad at ddysgu gydol oes i bob oed mewn amrywiaeth o leoliadau.

Dros gyfnod o dair blynedd, fe wnaeth **ADTRAC**, dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai, gyda chefnogaeth £6.7m o gyllid yr UE, ddarparu cymorth dwys i bron i 1,200 o bobl ifanc 16-24 oed ledled gogledd Cymru a oedd yn wynebu heriau sylweddol o ran cael gwaith. Cynigiwyd amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys cefnogaeth emosiynol ac iechyd meddwl, mentora, cyrsiau i wella sgiliau craidd a llythrennedd TG, a chymorth i geisio am swyddi. Roedd y canlyniadau cadarnhaol i gyfranogwyr yn cynnwys gwell lles meddyliol, gwell sgiliau cyflogadwyedd a'r gallu i leihau nifer y rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu, fel problemau gyda hyder a sgiliau cyfathrebu.



*Prosiect ADTRAC*

# 7 Sgiliau

Fe arweiniodd y prosiect **TRAC 11-24**, dan arweiniad Cyngor Sir Ddinbych a gefnogwyd gan £24.8m o gyllid yr UE, at ostyngiad o 66% yn nifer y dysgwyr 16-24 oed sy'n dod yn NEET (ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant). Roedd y cynllun, a ddarparwyd mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a cholegau Addysg Bellach, yn darparu amrywiaeth o gymorth iechyd a lles gan gynnwys cwnsela, cyngor lles a phresenoldeb, cyrsiau a lleoliadau gwaith a chyngor pwrpasol gan Gyrfa Cymru. Neilltuwyd mentoriaid gydag arbenigedd mewn amrywiaeth o faterion gan gynnwys tai, lles ac iechyd a lles i fyfyrwyr a oedd yn profi anawsterau dysgu fel y gallai'r myfyrwyr ganolbwyntio ar eu dysgu a sicrhau eu bod yn parhau i gymryd rhan mewn addysg.




*Tîm prosiect TRAC 11-14*

Roedd prosiect **Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Gweithwyr** Coleg Cambria yn rhoi cymorth ariannol i fusnesau ledled Gogledd Cymru i wella sgiliau a gwybodaeth gweithwyr. Roedd y prosiect yn cefnogi cyflogwyr i greu gweithlu medrus ac addasadwy drwy hyfforddiant a datblygiad sy'n cael cymhorthdal. Mae hyfforddiant galwedigaethol ar gael mewn amryw o sectorau allweddol gan gynnwys Gweithgynhyrchu Uwch, Peirianneg ac Adeiladu, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Tir, Ynni a Gwasanaethau Proffesiynol.

Gyda chefnogaeth £2.8m o gyllid yr UE, bu **Academi Busnes Gogledd Cymru** yn gweithio gyda 480 o berchnogion busnes a gweithwyr o dros 300 o gwmnïau yng ngogledd Cymru, gan eu cefnogi i wella eu perfformiad busnes drwy gynyddu sgiliau eu rheolwyr a gweithwyr eraill drwy ddarparu cyrsiau achredetig 'byr'.

Ar y cyd â chonsortiwm o brifysgolion eraill ledled Cymru, bu prosiect **Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth** dan arweiniad Prifysgol Bangor yn gweithio drwy gydol rhaglenni Cronfa Strwythurol 2007-2013 a 2014-2020. Gyda'r nod o gynyddu nifer yr unigolion sydd â sgiliau lefel uwch mewn Ymchwil ac Arloesi, fe gefnogodd gwmnïau i gynnal ymchwil ar y cyd gan fanteisio ar arbenigedd academyddion ym maes Addysg Uwch.




*KESS2*

Arweiniodd **Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant** lawer o brosiectau a ariannwyd gan yr UE gan gynnwys **Uwchsgilio Diwydiant 4.0 ar gyfer Diwydiant**, gan ddarparu cymwysterau achrededig i gefnogi cwmnïau gweithgynhyrchu i gadw i fyny â Diwydiant 4.0 (Rhyngrwyd Ddiwydiannol) a thechnolegau gweithgynhyrchu modern uwch. Roedd busnesau bach a chanolig hefyd yn cael eu cefnogi gan brosesau, deunyddiau a thechnolegau **Peirianneg Dylunio Uwch**, er mwyn cynyddu eu gallu i arloesi a pharhau'n gystadleuol.

Ar hyn o bryd, mae diwydiant yn profi cyfnod o newid technolegol dwys a tharfol y cyfeirir ato fel y 'Pedwerydd Chwyldro Diwydiannol' neu'n fwy cyffredin **Diwydiant 4.0**. Fe wnaeth y prosiect **Meistr Arloesedd Rhyngwladol** uwchsgilio gweithwyr yn y diwydiant i greu gweithwyr proffesiynol sy'n gallu deall, addasu a manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan newid technolegol cyflym.

Darparodd **Tyfu Gweithluoedd Drwy Ddysgu a Datblygu (GWLAD)** Fframwaith Ymarfer Proffesiynol dwyieithog integredig gyda chyflogwyr yn ne orllewin a chanolbarth Cymru mewn ymateb i'w hanghenion sgiliau canolraddol ac uwch. Roedd yn cynnwys achredu rhaglenni datblygu staff, dysgu drwy brofiad blaenorol a chyflwyno ystod eang o fodiwlau a arweiniodd at gymwysterau mewn Ymarfer Proffesiynol.